



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development:  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# GRANTIAU BACH GLASTIR RHEOLAU'R CYNLLUN

## RHEOLAU CYMHWYSEDD GRANTIAU BACH GLASTIR

I fod yn gymwys am Grantiau Bach Glastir:

- Rhaid eich bod wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi derbyn Cyfeirnod Cwsmer (CRN) a rhaid i'ch tir fod wedi'i gofrestru gyda System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru.
- Rhaid eich bod wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein.
- Mae gennych gyfrifoldeb a rheolaeth lawn dros y tir i'ch galluogi i gyflawni ymrwymadau'r contract hwn.
- Nid ydych wedi gwneud cais am arian na derbyn arian ar gyfer y prosiectau a gynhelir ar dir y Contract oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall.

I fod yn gymwys am Grantiau Bach Glastir, rhaid i'r tir:

- Fod yn dir amaethyddol.
- Fod yng Nghymru.

## YMRWYMIADAU'R CYNLLUN

- Rhaid ichi gwblhau'r prosiect a hawlio erbyn y dyddiad cau a nodir yn y Contract.
- Rhaid ichi gadw at y gofynion a nodir yn y Contract.
- Rhaid ichi sicrhau na fydd unrhyw waith a wneir i gyflawni'r prosiect yn torri unrhyw rwymedigaethau amgylcheddol dan ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, gan gynnwys Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop neu'n difrodi unrhyw nodweddion amgylcheddol hanesyddol.
- Rhaid ichi hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn 30 diwrnod am unrhyw newidiadau i'r tir a reolir dan y Contract hwn trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein a'r

opsiwn Rheoli fy Nhir newydd neu drwy lenwi'r ffurflen 'Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir'

- Rhaid mai chi yw'r unig un sy'n hawlio cynlluniau Cymorth Ewropeaidd (e.e. Cynllun y Taliad Sylfaenol a Glastir). Rhaid i chi sicrhau nad yw Tir y Contract yn dir y mae neu y gall unrhyw unigolion eraill fod â hawl i wneud hawliad ar ei gyfer dan unrhyw gynlluniau Polisi Amaethyddol Cyffredin Ewropeaidd. Mae unrhyw dir yr hawlir amdano gan ddau neu fwy o unigolion ar wahân dan wahanol gynlluniau Polisi Amaethyddol Cyffredin Ewropeaidd (hawlio ddwywaith ar yr un tir) yn dir anghymwys.

### **PROSIECTAU GWAITH CYFALAF**

- Rhaid cwblhau prosiectau yn unol â'r Fanyleb Dechnegol ar gyfer gwaith cyfalaf.
- Rhaid ichi gwblhau'r prosiect a hawlio erbyn y dyddiad cau a nodir yn y Contract.
- Lle na chynhelir prosiectau gwaith cyfalaf ac na ddyfarnwyd rhanddirymiad, ystyrir bod y contract wedi'i dynnu yn ôl ac ni chaiff ei ariannu. Gallech hefyd gael eich gwahardd rhag gwneud cais am Grantiau Bach Glastir am ddwy flynedd arall. Cewch eich hysbysu lle y bydd y gwaharddiad hwn yn cael ei orfodi.